

# Sul yr Urdd

## Darllen: Actau 1:8

Wrth ymuno â'r plant a'r ieuentid ar Sul yr Urdd mae atgofion plentyndod yn llifo'n ôl. Y dyddiau hynny pan oedd bywyd yn werth ei fyw! Y cyfarfodydd min nos, a phob math o weithgareddau am awr neu ddwy. Paratoi wedyn ar gyfer yr eisteddfodau lleol a sirol, ac os bydden ni'n lwcus paratoi ar gyfer yr eisteddfod fawr. Ond prin iawn oedd hyn yn digwydd i ni. Mi fyddwn i wrth fy modd yn cystadlu yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus. Roedd y gystadleuaeth hon yn bwysicach i mi na mynd i Lan-llyn neu Langrannog. Cofiwch mai digon cyfyng oedd gweithgareddau'r Urdd hanner can mlynedd a mwy yn ôl. Ond mae'r mae'r Urdd bellach yn cynnig llawer mwy i bobl ifanc Cymru. Y cwestiwn rydw i wedi bod yn ei ofyn ers blynyddoedd ydi, 'Ydyn ni'r Cymry'n cymryd digon o ddiddordeb yn ein gwlad?' Pan fyddaf yn mynd i Ddyffryn Ogwen ar benwythnos byddaf yn gweld ochrau'r ffyrdd yn llawn o geir. Pobl ddwâd sy'n parcio yno er mwyn mynd i ddringo a cherdded y mynyddoedd. Maen nhw'n dod o bellafoedd Lloegr a'r Alban i fanteisio ar ein tirwedd ni. Ond faint a wnawn ni o'n tirwedd? Ers tro byd, mae'r Urdd wedi'i gweld hi, ac mae'n awyddus i ieuentid Cymru wneud yn fawr o'n hamgylchedd gwyrdd, creigiog a dyfrllyd – a gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Urdd yn hyrwyddo hyn trwy gydweithio â mudiadau awyr agored eraill, sy'n golygu bod yr iaith Gymraeg yn treiddio i'r mudiadau hynny hefyd. A pha anturiaethau fydd yn wynebu ein hieuentid? Dyma restr ohonyn nhw: canwïo â cheufadau ar lyn neu fôr neu afon; dringo dan do neu ar greigiau; cerdded afon; mynydda a hwylio. Mor braf fydd clywed llond ceg o Gymraeg ar ein llynnoedd, afonydd a mynyddoedd. Go dda'r Urdd! O am fod yn ifanc unwaith eto!

Dyma neges i bawb ohonom i'w hefelychu. Mae tuedd i ni'r Cymry Cymraeg ein cadw ein hunain a'n Cymreictod i ni ein hunain. Gwarchod yr iaith er mwyn ei chadw'n saff. Onid ydi hi'n hen bryd i ni ddymchwel y rhagfuriau a dangos i'r bobl ddwâd gymaint sydd gennym i'w gynnig.

Bûm am ugain mlynedd yn rhan o fenter busnes ar Ynys Môn. Menter dwristaidd oedd hon lle roedden ni'n gwahodd pobl Cymru a thu hwnt i ddod i gael profiad trofannol. Cymraeg oedd iaith y fenter drwyddi draw, a'i llwyddiant oedd bod y Cymry'n medru dangos eu bod hwythau hefyd yn llwyddo. Mewn ugain mlynedd, dim ond un teulu glywais yn achwyn fod gormod o Gymraeg i'w glywed o gwmpas y lle!

Mae yma her i'r eglwysi hefyd. Beth am y mewnfudwyr sy'n dod i'n pentrefi a'n cefn gwlad? Oni fedrwn ddangos iddyn nhw gymaint sydd gennym i'w gynnig yn ieithyddol, hanesyddol a diwylliannol? Dysgu'r Gymraeg iddyn nhw. Mae'r Urdd ar y blaen.

### **Myfyrdod pellach:**

Beth yw cysylltiad eich eglwys chi â'r Urdd?

Beth am y syniad o'r eglwys yn arloesi yn y bröydd Cymraeg? Beth fedrwn ni ei wneud?